**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1304/23

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

31 Mai 2023

Annwyl Peredur,

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar oblygiadau ariannol Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Yn fy ymateb, cytunais mewn egwyddor i argymhellion 1, 2 a 3 a oedd yn gofyn am ddiwygiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar ôl Cyfnod 2 ym mhroses y Bil. Nodais y byddai angen o leiaf chwe mis i gwblhau newidiadau o'r fath ac y byddwn yn ysgrifennu eto unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Rwyf nawr yn ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol.

**Argymhelliad 1**

Nid yw'n glir, ar hyn o bryd, pa fudd a fyddai'n cael ei gyflawni o ailasesu costau i fusnesau manwerthu, arlwyo neu letygarwch yn newid i ddewisiadau plastig amgen nad ydynt yn rhai untro o ganlyniad i'r Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau amcangyfrifedig ar gyfer y sector hwn o ran y cynhyrchion yng ngham 1 y gwaharddiadau. Rwyf eisoes wedi nodi fy ymrwymiad i sicrhau bod gwaith dadansoddi manwl yn cael ei wneud cyn cyflwyno gwaharddiadau pellach, neu cyn unrhyw fwriad i ychwanegu at y cynhyrchion yn Atodlen y Bil neu eu diwygio.

Bydd costau wedi codi ers 2019 pan wnaed y gwaith ymchwil sy'n sail i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn berthnasol i'r holl gynhyrchion untro pa bynnag ddeunydd y maent yn cael eu gwneud ohono. Er enghraifft, roedd costau fesul uned ar gyfer platiau, cwpanau a chytleri ar gyfer busnesau arlwyo a lletygarwch yn fach o'i gymharu â chostau'r cynhyrchion bwyd neu ddiod oedd yn cael eu gwerthu gyda hwy. Bydd hynny dal yn wir heddiw. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y byddai cynnydd mewn costau na ellid eu hamsugno gan fusnes yn cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid. Mae hyn yn dal i fod yn wir hefyd. Yn dilyn cyflwyno gwaharddiadau yng Nghymru neu'r tu hwnt, roedd yr adroddiad hefyd yn rhag-weld y byddai amodau marchnad newydd yn arwain at gynnydd o ran y cyflenwad o ddewisiadau amgen, gan leihau eu costau fesul uned.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2**

Roedd argymhelliad 2 yn gofyn am wneud gwaith pellach i asesu'r costau a'r anfanteision i weithgynhyrchwyr a busnesau eraill o wyro cynhyrchiant oddi wrth eitemau plastig.

Canfu'r gwaith ymchwil gwreiddiol fod y rhan fwyaf o'r gwaith o weithgynhyrchu cynhyrchion yn Atodlen y Bil yn digwydd dramor. Nid yw'r gwaith ymgysylltu parhaus y mae swyddogion wedi ei wneud gyda’r sectorau hyn wedi datgelu unrhyw beth a fyddai'n cwestiynu hyn.

Yn ystod y gwaith ymgysylltu â'r sector gweithgynhyrchu yn 2019, dim ond un cwmni a gyflwynodd amcangyfrifon costau ar gyfer pontio i weithgynhyrchu dewisiadau amgen nad ydynt yn blastig. Roedd y rhain yn benodol i'r busnes hwnnw. Roedd trafodaethau dilynol gyda'r contractwyr a wnaeth y gwaith hwn yn nodi bod gwybodaeth i helpu i wella amcangyfrif 2019 yn dal yn annhebygol o fod ar gael nac yn hygyrch.

Gan ystyried y ddau ffactor hyn, mae swyddogion o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai ailedrych ar y costau a'r anfanteision i weithgynhyrchwyr yn darparu'r canlyniadau y mae'r Pwyllgor yn eu disgwyl mewn perthynas â'r sector hwn.

**Argymhelliad 3**

Yn fy ymateb cychwynnol i argymhelliad 3 ym mis Hydref, eglurais fod yr £8.6 miliwn mewn perthynas â buddion i fusnesau ledled y DU. Mae hyn yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog ar gyfer Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Canfu'r adroddiad y gallai busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru gadw cyfran o'r budd hwn pe bai busnesau'n ymateb drwy gynhyrchu'r cynhyrchion amgen.

**Y camau nesaf**

Byddwn yn comisiynu tystiolaeth bellach i hysbysu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer detholiad cyfyngedig o'r cynhyrchion yn Atodlen y Bil yn hytrach nag ailedrych ar yr holl gynhyrchion. Mae hyn yn cynnwys bagiau siopa untro, caeadau polystyren untro ar gyfer cwpanau a chaeadau polystyren untro ar gyfer cynwysyddion cludfwyd, na chafodd eu costau a’u manteision eu hamcangyfrif yn llawn wrth gyflwyno'r Bil. Rwyf o’r farn y byddai hyn yn ddefnydd gwell o arian cyhoeddus.

Bydd y dystiolaeth newydd yn ategu'r gwaith cychwynnol a wnaed yn ystod haf 2022 cyn cyflwyno'r Bil. Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion ailedrych ar ddata effaith ar gyfer cynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy ac ocso-fioddiraddadwy, gan na chanfuwyd bod llawer o gynhyrchion ar y farchnad yn ystod y gwaith ymchwil gwreiddiol yn 2019. Ers hynny, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban wedi gwneud gwaith ar y cynhyrchion hyn, felly rwy'n credu bod cyfiawnhad bellach dros ailedrych ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynhyrchion hyn mewn perthynas â chyflwyno gwaharddiad posibl yng Nghymru.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change